ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

TGCh Blwyddyn 4

Uned 4A Defnyddio Prosesydd Geiriau i drefnu, ad-drefnu a datblygu syniadau.

Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu bod modd defnyddio TGCh i drefnu, ad-drefnu, datblygu ac archwilio syniadau, a bod gweithio gyda gwybodaeth fel hyn yn gallu helpu dealltwriaeth. Dylent fod yn cadw eu gwaith yn rheolaidd. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant drafod eu profiadau o ddefnyddio TGCh a sut maen' cael ei ddefnyddio yn y byd ehangach.

Bydd y plant yn gallu cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth: nodi pwyntiau allweddol mewn stori neu adroddiad; ysgrifennu adroddiad lle defnyddir manylion am gymeriadau a gweithrediadau i ddiddori'r darllenwr; defnyddio tystiolaeth ac enghreifftiau i gefnogi pwyntiau allweddol.

Byddant yn gallu defnyddio eu sgiliau hefyd wrth: ysgrifennu testun traethiadol ac anhraethiadol yn Gymraeg; cynhyrchu adroddiadau sy'n tynnu ar ffynonellau hanesyddol, egluro syniadau, datblygu meini prawf ac awgrymu ffyrdd ymlaen mewn dylunio a thechnoleg.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod plant:

- yn gyfarwydd ag ansoddeiriau, adferfau, cysyllteiriau a chyffelybiaethau
- yn gallu nodi pwyntiau allweddol mewn testun
- yn gallu brasddarllen a darllen yn fanwl.

Geirfa:

maint y ffont | llythrennau bras | copïo | symud | torri a gludo | gwiriwr sillafu **|** darganfod ac amnewid |

Adnoddau:

prosesydd geiriau | erthyglau newyddiadurol | erthyglau cylchgronau | llyfrau storïau | ffeiliau testun |

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: use defnyddio nodweddion uwch prosesydd geiriau i'w helpu i gydweddu eu gwaith â'u cynulleidfa

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio nodweddion fel gwiriwr sillafu i'w helpu i olygu eu gwaith

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: dewis a defnyddio nodweddion uwch priodol prosesydd geiriau i gynyddu eu heffeithlonrwydd wrth gydweddu eu gwaith â'u cynulleidfa

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Gosod yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod llyfrau a chylchgronau'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno ac effeithiau ysgrifenedig i gyfathrebu negeseuon	♦ Dangoswch i'r dosbarth enghreifftiau o ardduliau ysgrifennu gwahanol mewn llyfrau, cylchgronau. Gofynnwch iddynt eu darllen mewn grwpiau bach a marcio effeithiau arnynt fel *defnyddio iaith fynegol; dilyniant clir; penawdau o arddull wahanol*. Esboniwch eu bod yn mynd i gynhyrchu eu herthyglau eu hunain sy'n rhannu'r nodweddion hyn, gan ddefnyddio prosesydd geiriau	• sylweddoli bod llyfrau a chylchgronau'n defnyddio amrywiaeth o effeithiau ysgrifenedig a gweledol	• Yn aml mae penawdau, is-benawdau mewn arddull ffont gwahanol ac yn fwy na chorff y prif destun. Esboniwch fod yr effaith hon yn fodd i dynnu llygaid y darllenwyr at yr erthygl a'u hysgogi i barhau i ddarllen.
Tasg fer wedi'i ffocysu • **techneg:** newid maint y ffont a defnyddio effeithiau i nodi pwysigrwydd cymharol • **techneg:** cadw ac adfer gwaith	Gofynnwch i'r dosbarth awgrymu rhestr o bum ffordd o wella amser chwarae, a bwydo eu hawgrymiadau i mewn ar y sgrîn. Dangoswch sut i newid maint y ffont a defnyddio llythrennau bras i wneud i rai syniadau edrych yn fwy pwysig nag eraill. ♦ Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a gofynnwch i bob grŵp gymryd tro i newid maint y geiriau i nodi trefn y flaenoriaeth. Gofynnwch iddynt argraffu eu gwaith a dychwelyd y sgrîn i'w ffurf flaenorol	• defnyddio meintiau ac effeithiau ffont mewn ffordd briodol • cadw gwaith yn rheolaidd ac adfer gwaith.	• Gall y rhestr fod yn unrhyw beth y mae plant yn gallu ei flaenoriaethu – pethau maen nhw'n eu gwneud yn yr ysgol, beth maen nhw'n eu bwyta, sut maen nhw'n gallu helpu pobl eraill.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)			
• **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i ad-drefnu testun i wneud ei ystyr yn fwy clir • **techneg:** defnyddio torri a gludio i ad-drefnu darn o destun	♦ Bwydwch i mewn gyfres ddigyswllt o ddisgrifiadau o ddigwyddiadau, *ee set o gyfarwyddiadau, digwyddiadau hanesyddol, atgofion o'r hyn a welodd neu a glywodd deg tyst mewn lladrad banc*. Esboniwch wrth y dosbarth nad yw gwybodaeth bob amser wedi'i chyflwyno yn y dull mwyaf defnyddiol. Dangoswch sut i ddefnyddio torri a gludio i symud testun o gwmpas y sgrîn. ♦ Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch i'r plant ad-drefnu'r brawddegau i gynhyrchu dilyniant mwy clir o ddigwyddiadau.	• defnyddio torri a gludio i ad-drefnu testun • cynhyrchu dilyniant clir o ddigwyddiadau	Dylai plant weithio ar gopi o'r ffeil a baratowyd ymlaen llaw gan yr athro/athrawes. Os yw'r brawddegau'n cynnwys cliwiau am hyd digwyddiadau neu amser, gellir gofyn i blant ychwanegu llinell amser at eu hadroddiad. Gellir rhoi allbrint o'r dilyniant ar hap gwreiddiol i blant sy'n cael anhawster cofio beth maen nhw wedi'i wneud
• **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i ddiwygio testun • **techneg:** dileu, mewnosod ac amnewid testun i wella eglurdeb a chreu naws	♦ Bwydwch ddarn byr disgrifiadol i mewn. Darparwch gopïau printiedig o'r testun ar gyfer y plant a thrafodwch sut mae rhai geiriau'n creu naws. Dangoswch sut i ddileu, mewnosod a theipio dros eiriau. ♦ Gofynnwch i'r plant addasu'r darn i newid ei naws, *ee drwy ei wneud yn fwy cyffrous, yn fwy tawel neu'n fwy cyfoes*	• golygu testun	• Gellir gofyn i blant sy'n cael y gwaith yn anodd dynnu geiriau ymaith nad oes eu hangen i gyfathrebu'r ystyron llythrennol neu mae modd rhoi rhestr o eiriau anodd iddynt. • Gellir dangos i blant sy'n deall iaith yn dda sut i ddefnyddio geiriadur, thesawrws neu restr termau i nodi amnewidynnau priodol

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.) • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i gywiro camsyniadau • **techneg:** defnyddio gwiriwr sillafu	♦ Bwydwch ddarn o lyfr gwybodaeth i mewn, *ee gwyddoniadur,* ond gan gynnwys nifer o gamsillafiadau. Trafodwch pam mae sillafu'n gywir yn bwysig ac esboniwch bod golygwyr a phrawfddarllenwyr yn cywiro camsillafu cyn i lyfr gael ei argraffu ♦ Dangoswch i'r dosbarth sut i ddefnyddio'r gwiriwr sillafu ac esboniwch ei fod yn gwneud nifer o awgrymiadau ar gyfer un gair weithiau, *ee 'wry', 'word', a 'wad' yn lle 'wrd'*. Esboniwch nad yw'r awgrymiad cyntaf bob amser yn gywir ac nad yw'r gwiriwr sillafu yn adnabod camgymeriadau lle defnyddir gair real, *ee ni fydd yn adnabod 'yr' yn y frawddeg 'eisteddodd y gath yr y mat'*. Rhannwch y plant yn barau a gofynnwch iddynt ddefnyddio'r gwiriwr sillafu i gywiro'r darn	• defnyddio gwiriwr sillafu ond yn sylweddoli bod gwiriwr sillafu yn gymorth, yn hytrach nag amnewidyn yn lle sgiliau sillafu	Dylai plant weithio ar gopi o'r ffeil a baratowyd gan yr athro/athrawes ymlaen llaw. Dylai camgymeriadau gynnwys rhai ble mae'r gwall yn amlwg yn ogystal â rhai mwy dyrys *ee teipio 'maen' yn lle 'mae'n'*.
• **syniad allweddol:** bod modd defnyddio TGCh i awtomeiddio diwygio testun • **techneg:** diwygio testun gan ddefnyddio darganfod ac amnewid	♦ Bwydwch i mewn ddarn estynedig a ysgrifennwyd yn y trydydd person sy'n cynnwys enw neillrywiol, ee *Sam*, ac yn defnyddio 'fe', 'ef', 'e'. ♦ Trafodwch y darn gyda'r dosbarth gan esbonio ei fod yn gywir ond am y ffaith mai merch yw Sam, nid bachgen. Trafodwch sut mae angen newid y darn ac esboniwch anfanteision cywiro'r darn â llaw: yr amser y byddai'n cymryd, posibilrwydd o golli pethau. Dangoswch sut i ddefnyddio darganfod ac amnewid a thrafodwch beth mae angen ei ystyried wrth ddefnyddio'r dechneg hon.	• sylweddoli bod TGCh yn gallu awtomeiddio prosesau llaw • sylweddoli rhai o fanteision ac anfanteision awtomeiddio prosesau llaw	

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasg Asesu • defnyddio TGCh i drefnu, ad-drefnu a dadansoddi syniadau a gwybodaeth • golygu testun a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno	♦ Anogwch y plant i weithio mewn parau gan ysgrifennu adroddiad o daith ysgol neu ddigwyddiad yn yr ysgol a drefnwyd gan ymwelwyr. Dylent ystyried pwyntiau allweddol ac ysgrifennu'r adroddiad yn ei drefn gronolegol. Dylent ddefnyddio'r technegau yn y modiwl hwn i ad-drefnu, trefnu a diwygio eu gwaith dros gyfnod o amser, gan wirio am gywirdeb, cywiro camsyniadau a gwella eglurder ac ystyr. ♦ Dylid rhannu enghreifftiau da o waith y plant gyda holl blant y dosbarth, gyda thrafodaeth ynghylch pam roedd y darnau hynny o waith mor effeithiol.	• drefnu ac ad-drefnu testun ar y sgrîn • defnyddio technegau priodol i sicrhau fod eu hysgrifennu'n glir, wedi'i gyflwyno'n dda a heb unrhyw wallau	• Trafodwch â'r dosbarth unrhyw nodweddion golygu yr oeddent yn hoffi eu defnyddio neu a oedd yn ddefnyddiol i'w gwaith a'u rhesymau dros eu dewis. • Gallai rhai plant ychwanegu llun digidol at eu hadroddiad, ond mae'n rhaid i'r pwyslais fod ar drefnu a chywirdeb y testun ysgrifenedig. • Gallent anfon eu hadroddiadau at ysgolion eraill ar e-bost.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA